

Ffurf y rhaglen Cofrestrau Achrededig yn y dyfodol

Adroddiad ar yr ymgynghoriad cyhoeddus

Ebrill 2021

Ynglŷn â'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad gwirfoddol pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig.

Rydym yn goruchwyllo gwaith 10 corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Rydym yn adolygu perfformiad y rheolyddion ac yn archwilio a chraffu ar eu penderfyniadau am a yw pobl ar eu cofrestrau yn addas i ymarfer.

Rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer sefydliadau sy'n cynnal cofrestrau gwirfoddol o bobl mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio, ac yn achredu'r sefydliadau sy'n bodloni ein safonau.

I annog gwelliannau, rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth, yn cyflawni ymchwil ac yn cyflwyno syniadau newydd yn cynnwys ein cysyniad o reoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym yn monitro datblygiadau polisi yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ac yn darparu cyngor i lywodraethau ac eraill ar faterion yn ymwneud â phobl yn gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn cyflawni rhai comisiynau rhyngwladol i ehangu ein dealltwriaeth o reoleiddio ac i hyrwyddo diogelwch o ran mudoedd y gweithlu iechyd a gofal.

Ein gwerthoedd sefydliad yw: cywirdeb, tryloywder, parch, tegwch a gwaith tîm. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein gwerthoedd yn ganolog i'n gwaith. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk.

Cynnwys

1.	Crynodeb gweithredol.....	1
2.	Cefndir – pam ein bod wedi ymgynghori	3
3.	Pwy ymatebodd?	4
4.	Y casgliadau	6
5.	Y camau nesaf	21
6.	Atodiad A – Digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid	22

1. Crynodeb gweithredol

- 1.1 Yn 2012, creodd y Llywodraeth ofyniad statudol ar yr Awdurdod i achredu cofrestrau gwirfoddol gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu a rhedeg y rhaglen ers hynny. Yn 2020, fe gynhaliom adolygiad strategol i bennu os gallai'r rhaglen gynnal ei hun yn ariannol a pha newidiadau fyddai angen i ddiogelu'r cyhoedd. Cyflwyno'r adroddiad hwn ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a gyflawnom yn rhan o'r adolygiad hwnnw.
- 1.2 Sefydla'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 mai ein swyddogaethau dan y ddeddfwriaeth hon yw:
 - 1) i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr gofal iechyd, defnyddwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr, defnyddwyr gwasanaethau gwaith cymdeithasol yn Lloegr ac aelodau o'r cyhoedd mewn perthynas â pherfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol,
 - 2) i hyrwyddo arfer gorau o ran perfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol, ac
 - 3) i ffurfio egwyddorion llywodraethu da ym mherfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol ac i annof personau sy'n cynnal neu weithredu cofrestrau gwirfoddol achrededig i gydymffurfio â'r egwyddorion hynny.
- 1.3 Heddiw, mae'r rhaglen Cofrestrau Achrededig yn cwmpasu 25 o gofrestrau ac oddeutu 100,000 o ymarferwyr. Mae hyn yn cynnwys oddeutu 60 math gwahanol o alwedigaeth, yn cynnwys cynghorwyr, seicotherapyddion gwyddonwyr iechyd, ymarferwyr iechyd cyhoeddus, therapyddion cyflenwol a homeopathiaid. Mae ymarferwyr yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau yn cynnwys ymarfer annibynnol, y GIG, addysg a sefydliad gwirfoddol.
- 1.4 Dyma'r tro cyntaf ers cyflwyno'r rhaglen yn 2012 i ni gyflawni adolygiad trylwyr o'i effeithiolrwydd. Rydym yn cydnabod, er gwaethaf ein hymdrechion, nad yw'r rhaglen wedi cyflawni'r lefelau o gydnabyddiaeth a defnydd y rhagwelwyd gennym yn wreiddiol. Wedi ei gyflwyno, cytunodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) i ddarparu cyllid tra bod y rhaglen yn cael ei sefydlu, ar yr amod ei fod yn cyflawni statws hunangyllido erbyn Ebrill 2021. Hyd yma, nid yw'r rhaglen wedi cyrraedd y safle hwn sy'n cynrychioli risg ariannol annerbyniol i'r Awdurdod. Mae yna hefyd risgiau cyfreithiol ac enw da yn gysylltiedig gydag achredu rhai cofrestrau ble mae'r dystiolaeth o effeithiolrwydd triniaethau a ddarperir gan eu cofrestryddion yn isel yn dan amheuaeth.
- 1.5 Ceir cyfleoedd hefyd. Mae yna newidiadau arwyddocaol wedi bod yn yr amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol ehangach ers cyflwyno'r rhaglen. Mae'r rhain yn awgrymu potensial i'r rhaglen wneud mwy o gyfraniad o fewn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach – ar yr amod bod y sicrwydd a ddarperir yn rhywbeth mae'r Llywodraeth, y GIG, gofal cymdeithasol, y sector annibynnol a defnyddwyr gwasanaeth ei eisiau ac yn ei gefnogi. Oherwydd hyn, fe benderfynom gyflawni adolygiad strategol i'r rhaglen i ystyried a yw'n ffordd briodol o oruchwylio'r cofrestrau o fewn ei gwmpas.

- 1.6 Cynhaliwyd ein hymgyngghoriad ar ddyfodol y rhaglen Cofrestrau Achrededig o 11 Rhagfyr hyd 18 Chwefror 2021. Ceisiodd farnau gan y cyhoedd, cyflogwyr, Cofrestrau Achrededig cyfredol a rhanddeiliaid eraill i weld beth fyddai'n ffordd orau i achrediad cofrestrau rolau iechyd a gofal cymdeithasol nad oes yn rhaid eu rheoleiddio yn ôl y gyfraith ddiogelu cleifion a defnyddwyr eraill eu gwasanaethau.
- 1.7 Roedd yr ymgynghoriad yn rhan bwysig o'n hadolygiad strategol o'r rhaglen, a ddechreuodd ym Mehefin 2020. Yn ystod cyfnod cyntaf ein hadolygiad, fe ystyriom os oedd y rhaglen wedi bodloni'r nodau gwreiddiol a sefydlwyd ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth, [Enabling Excellence](#), wyth mlynedd ers ei gyflwyno. Casglom er bod modd i ni olrhain gwelliannau a wnaed gan yr holl sefydliadau rydym wedi eu hachredu yn y cyfnod hwn, er mwyn i'r rhaglen gyrraedd ei botensial mae angen mwy o gydnabyddiaeth a defnydd, yn arbennig gan gyflogwyr. Mae hefyd yn allweddol bod y rhaglen yn hunangyllido er mwyn lliniaru'r risgiau ariannol posibl, ac mae angen i ni sicrhau bod y rhaglen yn rheoli risgiau yn fwy effeithiol i liniaru rhag y risgiau cyfreithiol ac i enw da'r Awdurdod.
- 1.8 Sefydlodd ein hymgyngghoriad dair prif her i'r rhaglen i gyflawni hyn, i'w cyflwyno yn hwyrach eleni. Fe sefydlom newidiadau ar gyfer newidiadau uniongyrchol i wneud sut mae'r modd rydym yn asesu cofrestrau yn fwy cymesur i'r risg. Fe wnaethom hefyd amlinellu cynlluniau ar gyfer model ariannu diwygiedig i alluogi'r rhaglen i hunangyllido o fewn 2021/22. Yn olaf, fe geisiodd farnau ar os dylem roi mwy o ystyriaeth i dystiolaeth o ran effeithiolrwydd (neu effeithlonrwydd) triniaethau a gynigir gan y cofrestryddion ar y cofrestrau a achredir gennym.
- 1.9 Rydym hefyd wedi sefydlu ein gweledigaeth i'r dyfodol ar gyfer y rhaglen yng nghyd-destun y system reoleiddio ehangach. Cynigiodd y dylid cael mecanwaith cliriach ar gyfer pennu pa broffesiynau sy'n rhaid eu cofrestru yn ôl y gyfraith, yn seiliedig ar risg, fel cam cyntaf. Roeddem yn rhagweld defnyddio rheoliadau fel trwyddedu ar gyfer proffesiynau y gellid dweud eu bod yn fwy 'risg ganolig'.
- 1.10 Roedd ein harolwg ymgynghori yn cynnwys naw chwestiwn. Derbyniom 84 ymateb llawn gan amrywiaeth o randdeiliaid, yn cynnwys Cofrestrau Achrededig ymarferwyr, cyflogwyr a chleifion a grwpiau cleifion. Ceir dadansoddiad llawn dan adran 3. Roedd rhai o'r sefydliadau a ymatebodd wedi cynnal arolwg ymysg eu haelodau, oedd yn ehangu ein cyrhaeddiad. Cynhaliom dri digwyddiad hefyd i ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- 1.11 Roedd y casgliadau yn dangos cefnogaeth gyffredinol ar gyfer ein cynlluniau i gyflwyno cylch asesu hirach, a safonau gofynnol mwy eglur ar gyfer sefydliadau sy'n ymgeisio am achrediad. Credwyd fod hyn yn ffordd effeithiol i sicrhau ein bod yn ffocysu ein hadnoddau mewn modd dargedig. Datgelodd ymatebion am ein model ariannu fwy o amrywiaeth o farnau, ond ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol bod symud i fodel ffi cofrestru fesul cofrestrydd yn ffordd resymol i ni gyflawni cynaliadwyedd ariannol. Awgrymodd nifer o ymatebwyr, yn cynnwys sefydliadau yr ydym yn eu hachredu ar hyn o bryd, ffyrdd i gyfyngu'r effaith ar gofrestrau mwy.
- 1.12 Yn gyffredinol roedd yna dipyn o gefnogaeth i ni roi mwy o ystyriaeth i dystiolaeth o effeithlonrwydd yn ein penderfyniadau achredu. Roedd hyn yn arbennig o wir gan y grwpiau cleifion a'u haelodau a ymatebodd i'n hymgyngghoriad. Roedd ein

digwyddiadau rhanddeiliaid hefyd yn dangos lefel uchel o gefnogaeth ar gyfer hyn gan gyflogwyr, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrrff y GIG.

- 1.13 Fodd bynnag, roedd y barnau ar y ffordd orau i gyflawni hyn yn amrywio. O'r tri dewis y buom yn ymgynghori arnynt, roedd y gefnogaeth fwyaf ar gyfer cyflwyno isafswm sylfaen tystiolaeth dderbyniol. Fodd bynnag, amlygodd y sylwadau a dderbyniom yr heriau o weithredu hyn yn ymarferol yn arbennig ar gyfer meysydd iechyd a gofal sy'n ddibynnol ar ddeilliannau a adroddir gan ddefnyddwyr ar hyn o bryd.
- 1.14 Roedd ymatebion i'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yn amrywio, gyda chyfran gweddol gyfartal o rai oedd yn cytuno, anghytuno a ddim yn siŵr a fyddai ein cynigion tymor hwy yn cyflawni mwy o gydnabyddiaeth a defnydd o'r rhaglen, heb newid mwy sylfaenol i'r system ei hun. Amlygodd nifer o'r ymatebwyr ar draws pob un o'r categorïau hyn bwysigrwydd ystyried y rhaglen o fewn cyd-destun newidiadau i gofrestru statudol. Roedd yna gefnogaeth gref i ni fynd ar drywydd newidiadau deddfwriaethol a fyddai'n galluogi Cofrestrau Achrededig i gael mynediad i'r un lefel o wiriadau cofnodion troseddol â chyflogwyr. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn ochr yn ochr â'r newidiadau rydym yn bwriadu eu cyflwyno yn hwyrach eleni.
- 1.15 Ers i ni gau ein hymgyngoriad, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei Bapur Gwyn yn sefydlu newidiadau deddfwriaethol ar gyfer Mesur Iechyd a Gofal. Ar 24 Mawrth 2021, fe gyhoeddodd ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio rheoleiddio gweithiwr iechyd proffesiynol. Ar y cyd, mae'r newidiadau hyn yn awgrymu newidiadau yn y dyfodol a fydd yn cael effaith arwyddocaol ar ffiniau rheoleiddio statudol, ac anstatudol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau bod ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer y rhaglen wedi ei fewnosod o fewn y cynlluniau hyn.
- 1.16 Ar y cyfan, mae'r gefnogaeth a dderbyniom trwy ein hymgyngoriad wedi cynnig eglurder ynghylch y newidiadau mae'n rhaid i ni eu gwneud i sicrhau bod y rhaglen yn cyflawni'r amddiffyniadau hyn y mae cleifion, y cyhoedd a chyflogwyr yn disgwyl ei gael. Rydym yn ystyried yr awgrymiadau a wnaed ynghylch ein hymagwedd tuag at dystiolaeth effeithiolrwydd, a sut y gallem ddarparu hynny yn rhan o ddull sy'n canolbwyntio ar os yw penderfyniad i achredu sefydliad o fewn buddiannau'r cyhoedd.
- 1.17 Byddwn yn parhau i asesu effaith ein cynigion ar y rhai sydd fwyaf tebygol o fod wedi eu heffeithio, wrth i ni eu datblygu. Byddwn yn cyhoeddi datganiad cyhoeddus pellach wedi i'n Bwrdd gwrdd ym Mai 2021, o flaen llaw i'n dyddiad a ragwelir i gyflwyno'r newidiadau yng Ngorffennaf 2021.

2. Cefndir – pam ein bod wedi ymgynghori

- 2.1 Trwy ein rhaglen Cofrestrau Achrededig, rydym yn darparu sicrwydd ar gyfer rolau mewn iechyd a gofal cymdeithasol nad oes gofyniad i'w rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig. Fe wnawn hyn trwy achredu sefydliadau sy'n cynnal cofrestrau ar gyfer y rolau hyn, sy'n bodloni ein Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig. Er mwyn cael eu hachredu, rhaid i sefydliadau arddangos lefelau da o lywodraethu, delio â chwynion, cofrestru ac addysg a hyfforddiant.

- 2.2 Nod yr achrediad yw rhoi hyder i'r cyhoedd, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill wrth ddewis gwasanaethau gan ymarferwyr cofrestredig. Ar hyn o bryd mae ein Cofrestrau Achrededig yn cwmpasu dros 60 o rolau, yn cynnwys cynghori, seicotherapi, gwyddoniaeth iechyd a therapïau cyflenwol. Maent yn gweithio mewn nifer o leoliadau yn cynnwys ysbytai, ysgolion, clinigau preifat a chartrefi pobl.
- 2.3 Diben yr ymgynghoriad oedd ceisio barnau ar ein cynigion ar ffurf achrediad yn y dyfodol. Fe wyddom fod angen lefelau uchel o ymwybyddiaeth, mwy o ddefnydd a chydabyddiaeth gan gyflogwyr a hyder yn y safonau a gynhelir gan y cofrestrau a'u hymarferwyr er mwyn cyrraedd ei botensial.

3. Pwy ymatebodd?

- 3.1 Cynhaliwyd ein hymgynghoriad o 12 Rhagfyr hyd 18 Chwefror 2021. Cyhoeddodd arolwg gyda naw o gwestiynau. Derbyniom gyfanswm o 84 ymateb llawn, a ddarparwyd yn erbyn y cwestiynau ymgynghori. Derbyniom 13 ymateb ar ffurf wahanol. Er na allwn gynnwys y rhain yn y dadansoddiad ansoddol yn yr

Pa randdeiliaid a ymatebodd?

Y dadansoddiad yn ôl grŵp ymgynghori o'r 84 ymateb llawn i'n hymgynghoriad:

- Cofrestrau Achrededig a sefydliadau cysylltiedig: 40%
- Cofrestrau nad ydynt wedi eu hachredu gennym: 11%
- Cyflogwyr: 2%
- Cleifion/cyhoedd/Grwpiau cleifion: 2%
- Ymarferwyr: 20%
- Cyrff cyhoeddus, fel y GIG a'r Llywodraeth: 7%
- Arall ac anhysbys: 18%

Yn ogystal, cynhaliodd Cymdeithas y Cleifion arolwg o 105 o'i aelodau i hysbysu ei ymateb. Roedd yr ymateb gan Gyflogwyr y GIG hefyd wedi ei hysbysu gan geisiadau gan ei aelodau.

y dym wedi ystyried y sylwadau a ddarparwyd.


- 3.2 Y grŵp mwyaf o randdeiliaid i ymateb i'n hymgynghoriad oedd sefydliadau sydd wedi eu hachredu gennym ni (40%). Er, fe ddefnyddiodd un sefydliad, Cymdeithas y Cleifion, arolwg o 105 o'i aelodau i hysbysu ei ymateb. Roedd yr ymateb gan Gyflogwyr y GIG hefyd wedi ei hysbysu gan geisiadau gan ei aelodau.
- 3.3 Yn ogystal ag arolwg yr ymgynghoriad, cynhaliom dri digwyddiad i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar y newidiadau arfaethedig. Cynhaliwyd y rhain yn rhithiol yn Rhagfyr 2020 ac Ionawr 2021. Roedd hyn i'w gwneud yn haws i randdeiliaid ymateb, gan ein bod yn gwybod y gallai'r pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau ar draws y Deyrnas Unedig effeithio ar eu gallu i ymgysylltu yn ystod y cyfnod pan gynhaliwyd ein hymgynghoriad. Yn bresennol yn y digwyddiadau hyn roedd cynrychiolwyr o bedair llywodraeth y Deyrnas Unedig, grwpiau cleifion,

cyrff y GIG, cyflogwyr a chynrychiolwyr o'r sector annibynnol. Mae rhestr o'r digwyddiadau hyn yn Atodiad A.

4. Y casgliadau


A allai system o gofrestru gwirfoddol ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol fod yn effeithiol o ran diogelu'r cyhoedd?

- 4.1 Gofynnwyd i ymatebwyr ddatgan os oeddynt yn cytuno y gallai system o gofrestru gwirfoddol ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol fod yn effeithiol o ran diogelu'r cyhoedd.
- 4.2 Ar y cyfan, dywedodd 64% o'r ymatebwyr y gallai fod yn effeithiol; credai 25% na allai; ac roedd yr 11% yn weddill ddim yn gwybod neu ddim yn siŵr.
- 4.3 Dengys y graff isod sut ymatebodd y gwahanol grwpiau rhanddeiliaid.



AR and associated organisations	AR a sefydliadau cysylltiedig
Employers	Cyflogwyr
Other	Arall
Patients/Public/Patient groups	Cleifion/Cyhoedd/Grwpiau cleifion
Practitioners	Ymarferwyr
Public bodies/NHS/Government	Cyrff cyhoeddus/GIG/Llywodraeth
Unknown	Anhysbys
Voluntary registers – non AR	Cofrestrau gwirfoddol – nid AR
Don't know	Ddim yn gwybod
Maybe	Efallai
No	Na allai
Yes	Gallai

- 4.4 Er bod y rhan fwyaf o Gofrestrau Achrededig yn credu y gallai system wirfoddol o gofrestru fod yn effeithiol o ran diogelu'r cyhoedd, roedd 41% o ymarferwyr yn anghytuno, gyda'r mwyafrif yn datgan fod y natur wirfoddol yn tanseilio'r rhaglen, ac yn awgrymu y dylid rheoleiddio galwedigaethau penodol fel seicotherapi neu sonograffeg. Roedd cofrestrau nad ydynt wedi eu hachredu gennym hefyd yn dueddol o gytuno. Roedd y rhesymau a nodwyd yn cynnwys fod diffyg cydnabyddiaeth o'r rhaglen gyfredol gan y system gofal iechyd a diffyg ymwybyddiaeth o'r rhaglen gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn golygu nad oedd y rhaglen ar hyn o bryd yn effeithiol o ran diogelu'r cyhoedd.
- 4.5 Gofynnodd Cymdeithas y Cleifion i'w 105 o aelodau a holwyd a pha mor werthfawr oeddynt yn teimlo y gallai cofrestrau achrededig, gwirfoddol o'r fath fod. Dengys y graff isod eu hymatebion.



Very valuable	Gwerthfawr iawn
Somewhat valuable	Gweddol werthfawr
Of limited value	O werth cyfyngedig
Of no value at all	Dim gwerth o gwbl
Not sure	Ddim yn siŵr
Medical background	Cefndir meddygol
Non-medical background	Cefndir anfeddygol

- 4.6 Thema gyffredin ymysg yr ymatebwyr i'r arolwg a holwyd a'r rhai a fynychodd ein digwyddiadau rhanddeiliaid nad oeddynt yn credu y gallai system wirfoddol fod mor effeithiol, oedd nad yw'n gallu diogelu'r cyhoedd yn ddigonol gan nad yw'n ofynnol. Does yna ddim digon o ddefnydd a chydabyddiaeth o'r rhaglen gan gyflogwyr ar hyn o bryd i drechu hyn.

“Nid oedd nifer o'r cyflogwyr yn ymwybodol o'r PSA a'u cofrestrau achrededig, ac felly nid oeddynt yn defnyddio'r cofrestrau ar gyfer eu gweithwyr.” (Cyflogwyr y GIG)

- 4.7 Awgrymodd rhai ymatebion y gallai'r sicrwydd mae'r rhaglen yn cynnig fod yn fuddiol i gefnogi nodau ehangach y gweithlu, megis ar gyfer y rolau a sefydlwyd i ehangu neu gael eu cyflwyno yn rhan o Gynllun Hirdymor y GIG yn Lloegr.

"Mae timau amlddisgyblaethol yn chwarae rhan gynyddol o ran darparu gofal iechyd yn y Deyrnas Unedig. Nid yw'r rolau hyn yn amodol i reoleiddio statudol, ac eto maent yn gweithio'n agos ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol rheoledig ac yn aml gyda chyswllt uniongyrchol â chleifion bregus a fydd ag amrywiaeth eang o gyflyrau meddyliol ac/neu gorfforol. Felly mae sicrwydd o'r rolau newydd hyn yn allweddol i gyflogwyr, cleifion a'r cyhoedd deimlo'n hyderus yn y gwasanaethau maent yn eu darparu, a bydd yn sicrhau gweithio mewn tîm effeithiol i sicrhau bod yna 'fantell' o sicrwydd ar gyfer pob rôl."

Grŵp Gofal Personol, NHS England /Improvement

- 4.8 Ymysg y rhai a gredai y gallai system wirfoddol fod yn effeithiol, roedd yn dal yn bwysig cydnabod y cyfyngiadau. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cydnabod gwerth gael y rhaglen, ond datganwyd mai rheoleiddio statudol oedd y nod ddefnyddol o hyd.
- 4.9 Ar draws yr holl ymatebion a grwpiau rhanddeiliaid, roedd nifer o ymatebwyr yn credu bod gan y rhaglen botensial i ddrysu'r cyhoedd. Heb ffordd effeithiol i sicrhau bod y rhai a achredir yn bodloni'r safonau, gallai'r costau fod yn drech na'r manteision. Teimlai rhai ymatebwyr bod hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai oedd yn ceisio gwasanaethau gan ymarferwyr cyflenwol ac amgen.

"Rhaid cael cydbwysedd rhwng yr enillion posibl a'r posibiliad o oblygiadau negyddol anfwriadol." (Ymarferydd)

Cwmpas y rhaglen

- 4.10 Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut maent yn credu dylai'r Awdurdod bennu pa alwedigaethau i'w cynnwys yn y rhaglen, ac os oes yna unrhyw beth arall yr hoffent i ni ystyried parthed asesu ceisiadau ar gyfer cofrestrau newydd.
- 4.11 Cyflwynwyd hyn fel cwestiwn agored. Y prif feysydd a awgrymwyd i ni eu hystyried wrth benni pa gofrestrau a rolau fyddai'n gymwys ar gyfer y rhaglen oedd risg y rôl, dewis cleifion, a'r lefel o gymhwyster a hyfforddiant.
- 4.12 O ran risg, credai rhai o'r ymatebwyr y dylid cynnwys proffesiynau sydd â chyswllt uniongyrchol o ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd a chleifion, ac a fyddai fel arfer yn destun gwiriad manwl y DBS gan gyflogwr.

"Mae rheoleiddio cyffyrddiad cywir yn ymddangos i fod yn lle da i gychwyn."
(Cofrestr Achrededig)


- 4.13 Dewis cleifion – credai rhai y dylid cynnwys unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddewis gan y cyhoedd oherwydd eu bod yn dehongli ei fod yn cynnig rhyw fath o fantais.
- 4.14 Roedd nifer o ymatebwyr yn credu y dylai cymhwyster fod yn gysylltiedig i safonau addysg a hyfforddiant. Awgrymwyd galwedigaethau sydd â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gan ddau ymatebydd. Credai eraill y dylid cadw achrediad ar gyfer cofrestrau oedd yn galw am y safonau uchaf o addysg a hyfforddiant yn eu maes. Credai nifer o'r ymatebwyr y dylai'r rhaglen gael trothwyon mwy pendant ar gyfer bodloni safonau.

“Dylid diwygio'r cynllun i gael trothwy uwch ar gyfer achredu cofrestrau gwirfoddol achrededig ar gyfer rolau neu broffesiynau sy'n darparu gwasanaethau'r GIG a gofal uniongyrchol i gleifion”. (Health Education England)

- 4.15 Cysylltodd rhai ymatebwyr eu hymateb i'r system reoleiddio ehangach, megis cael un system reoleiddio unigol ar gyfer yr holl broffesiynau gofal iechyd. Derbyniom rai sylwadau ynghylch sut oedd y rhaglen ei hun wedi ei strwythuro, gyda'r ymatebwyr yn nodi na ddylid annog sefydliadau sy'n achredu mwy nag un rôl a 'sefydliadau mantell' er mwyn gallu asesu'r achrediad ar gyfer pob rôl yn unigol.

Cylch asesu

- 4.16 Gofynnodd ein harolwg ymgynghori os byddai symud o gylch blynyddol i un hirach o adnewyddu achrediad, yn gymesur i'r risg, yn ein galluogi i ddilyn ymagwedd dargedig, cymesur a hyblyg i'r asesiad.
- 4.17 Cytunodd 71% o'r holl ymatebwyr y dylem symud i gylch asesu hirach. Dim ond 6% ddywedodd na, gyda'r 23% oedd yn weddill yn ansicr.
- 4.18 Dengys y graff isod sut ymatebodd y gwahanol rhanddeiliaid.



AR and associated organisations	AR a sefydliadau cysylltiedig
Employers	Cyflogwyr
Other	Arall
Patients/Public/Patient groups	Cleifion/Cyhoedd/Grwpiau cleifion
Practitioners	Ymarferwyr
Public bodies/NHS/Government	Cyrff cyhoeddus/GIG/Llywodraeth
Unknown	Anhysbys
Voluntary registers – non AR	Cofrestrau gwirfoddol – nid AR
Don't know	Ddim yn gwybod
Maybe	Efallai
No	Na fyddai
Yes	Byddai

- 4.19 Gwelodd ymatebwyr a gefnogai'r cynigion hyn, ac a roddodd sylwadau, y manteision o leihau biwrocratiaeth. Awgrymodd rhai y gellid defnyddio'r amser a arbedwyd i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen, ac i helpu sicrhau y cefnogwyd sefydliadau oedd yn fwy newydd i'r rhaglen.


“Bydd hyn yn rhyddhau amser ar gyfer blaenoriaethau eraill, fel codi ymwybyddiaeth o'r gofrestr a chyfathrebu gyda chofrestryddion. Dylai'r PSA ddal gafael ar y gallu i gyflawni adolygiadau tu allan i'r cylch os codir pryderon difrifol.” (Cofrestr Achrededig)

- 4.20 Yn rhan o'n cynigion, awgrymom y gellid cyflwyno safonau gofynnol mwy clir ar gyfer y cofrestrau. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a roddodd sylw ar yr agwedd hon o'r cynigion bod y gofynion yn rhesymol ac y byddent yn cefnogi cofrestrau i gynnal safonau. Teimlai rhai y byddai safonau gofynnol yn ddefnyddiol ar gyfer annog cofrestrau newydd i ymgeisio.

“Mae gofynion sylfaenol penodol yn hanfodol ar gyfer addysg a hyfforddiant er mwyn cyflawni tryloywder i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r lefel o gymhwysedd, yn ogystal â darparu amddiffyniad uwch i'r cyhoedd.” (Ymarferydd)

A oes dealltwriaeth bod achrediad yn ardystiad o'r alwedigaeth mae'n ei chofrestru?

- 4.21 Gofynnodd ein harolwg os oedd achrediad wedi ei ddehongli fel rhywbeth sy'n ymhlygu ardystiad o'r galwedigaethau mae'n eu cofrestru. Gofynnwyd i ymatebwyr roi sylw ar y ffaith os oedd, a oedd hyn yn achosi trafferthion, a sut ellid lliniaru hyn yn y dyfodol.
- 4.22 Ar draws y galwedigaethau, cytunodd 57% nad oedd achredu yn ymhlygu ardystiad o'r galwedigaethau a gofrestrwyd. Dywedodd 16% na, gyda'r 27% oedd yn weddill yn ansicr.
- 4.23 Dengys y graff isod sut ymatebodd y gwahanol rhanddeiliaid.



AR and associated organisations	AR a sefydliadau cysylltiedig
Employers	Cyflogwyr
Other	Arall
Patients/Public/Patient groups	Cleifion/Cyhoedd/Grwpiau cleifion
Practitioners	Ymarferwyr
Public bodies/NHS/Government	Cyrff cyhoeddus/GIG/Llywodraeth
Unknown	Anhysbys
Voluntary registers – non AR	Cofrestrau gwirfoddol – nid AR
Don't know	Ddim yn gwybod
No	Nac ydw
Yes	Ydw

- 4.24 Ymarferwyr a chofrestrau gwirfoddol nad oeddynt wedi eu hachredu gennym oedd â'r gyfran fwyaf o rai'n ateb 'na'. Roedd sylwadau gan y rhai nad oedd yn credu fod achrediad yn ymhlygu ardystiad yn amrywio. Credai rhai mai ond trwy reoleiddio statudol y gellir cyflawni hyn. Roedd eraill yn credu y byddai achrediad yn dynodi lefel o gymhwyster gan ymarferwr neu o fodloni ein Safonau, ond nid ardystiad o'r alwedigaeth ei hun.


- 4.25 Yn gyffredinol, nid oedd Cofrestrau Achrededig cyfredol, cleifion a'r cyhoedd, a chyflogwyr yn credu bod cofrestriad yn ymhlygu ardystiad. Awgrymodd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd y gallai hyn achosi niwed os nad oedd tystiolaeth o effeithiolrwydd, yn arbennig ar gyfer y rhai a allai fod yn fregus yn gorfforol, emosiynol ac/neu'n ariannol.

“Roedd cyflogwyr yn credu ei fod yn ymhlygu ardystiad, ac y gallai hyn fod yn drafferthus os oedd gan yr alwedigaeth sylfaen tystiolaeth dadleuol neu absennol neu ddefnydd gwrthrychol”. (Cyflogwyr y GIG)

“Dylai'r cyhoedd gael eu hysbysu os yw achrediad yn ymhlygu ardystiad o effeithiolrwydd y therapi. Os nad, mae angen esbonio'r rhesymeg dros ddarparu achrediad i'r gofrestr wirfoddol yn glir i'r cyhoedd.” (NHS Education for Scotland)

“Os bydd pobl o'r fath yn rhoi eu ffydd mewn mathau 'amgen; o driniaeth, efallai y byddant yn teimlo nad oes angen ceisio cymorth gan feddygaeth prif ffrwd ac yn amlwg mae risg o niwed iddynt o ganlyniad (Healthwatch UK)

- 4.26 Gofynnodd Cymdeithas y Cleifion i'w haelodau os dylai effeithiolrwydd fod yn ofynnol er mwyn achredu cofrestr. Fe ddywedodd wrthym fod yna 'gydbwysedd barn cryf iawn ymysg ymatebwyr ein harolwg y dylai effeithiolrwydd fod yn ofyniad i achrediad.' Dangosir y canlyniadau ar gyfer y 105 o ymatebwyr isod.




Yes	Dylai
No	Na ddylai
Not sure	Ddim yn siŵr

- 4.27 Roedd nifer o ymatebion yn cydnabod bod y ffactorau sy'n debygol o ymhlygu ardystiad yn amlweddog ac nid wedi eu cyfyngu i dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd. Cynigiodd rhai ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer sut i liniaru'r risg yn deillio o ddehongliad ei fod yn ymhlygu ardystiad. Awgrymodd rhai ofyniad ar gyfer sylfaen tystiolaeth, tra bod eraill yn credu y gellid trechu hyn gyda gwell cyfathrebu.

“Roedd yna thema ymysg yr ymatebion yn ymwneud ag ymddygiad yr ymarferwyr a gwybodaeth a ddarparwyd i gleifion: gallai diffyg eglurder gan ymarferwyr ynghylch statws tystiolaethol eu disgyblaeth, neu anafodlonrwydd i ddarbwylo cleifion rhag ceisio cymorth meddygol confensiynol fod yn ofynion defnyddiol, heb fynd mor bell â thystiolaeth lawn o effeithiolrwydd.” (Cymdeithas y Cleifion)

Tystiolaeth o effeithiolrwydd a phenderfyniadau am achrediad

- 4.28 Gofynnwyd i ymatebwyr os oeddynt yn credu y dylem ystyried effeithiolrwydd galwedigaethau yn ein penderfyniadau achredu.
- 4.29 Ar y cyfan, roedd 45% o ymatebwyr yn credu y dylem ystyried effeithiolrwydd galwedigaethau. Credai 33% na ddylem, gyda'r 22% oedd yn weddill yn ansicr.
- 4.30 Dengys y graff isod sut ymatebodd y gwahanol rhanddeiliaid.




AR and associated organisations	AR a sefydliadau cysylltiedig
Employers	Cyflogwyr
Other	Arall
Patients/Public/Patient groups	Cleifion/Cyhoedd/Grwpiau cleifion
Practitioners	Ymarferwyr

Public bodies/NHS/Government	Cyrff cyhoeddus/GIG/Llywodraeth
Unknown	Anhysbys
Voluntary registers – non AR	Cofrestrau gwirfoddol – nid AR
Don't know	Ddim yn gwybod
Maybe	Efallai
No	Nac ydw
Yes	Ydw

4.31 Roedd sylwadau gan ymatebwyr nad oedd yn credu y dylem ystyried tystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd yn ein penderfyniadau achredu yn canolbwyntio'n bennaf ar heriau ymarfer sy'n gysylltiedig â mesur effeithiolrwydd, a'r barnau nad ein rôl ni yw ystyried effeithiolrwydd.

“Mae nifer o therapïau wedi eu ffurfweddu mewn ffordd sy'n golygu nad yw eu heffeithiolrwydd yn addas ar gyfer ymchwil seiliedig ar dystiolaeth. Nid yw hyn yn adlewyrchu ei effeithiolrwydd, ond yn hytrach yn ganlyniad i natur unigryw'r therapi. Mae nifer o gleifion yn cael eu cyfeirio yno gan deulu a ffrindiau, ac iddyn nhw, ardystiad ffrind dibynadwy neu aelod o'r teulu sy'n bwysig ac yn gweithio iddyn nhw, yn hytrach nag os yw'r therapydd wedi cofrestru ar gofrestr achrededig.” (Cymdeithas Meddygaeth Gyflenwol Prydain)

4.32 Arolygodd Cymdeithas y Cleifion ei haelodau yn ogystal â chyflwyno ymateb i'n cwestiynau.




Yes	Dylai
No	Na ddylai
Not sure	Ddim yn siŵr

4.33 Sefydlodd ein hymgyngoriad dri dewis ar gyfer ystyried effeithiolrwydd:

- 1) Gofyniad i'r gofrestr fod wedi datblygu cronfa wybodaeth ar gyfer yr alwedigaeth a gofrestrir, yn debyg i'n dull cyfredol (Safon 6)
- 2) Gofyniad i'r gofrestr feddu ar isafswm sylfaen tystiolaeth dderbyniol
- 3) Gofyniad i'r gofrestr sicrhau bod yna aliniad o ran ymarfer ei gofrestryddion gyda chanllawiau allanol fel NICE neu gyfatebol.

4.34 Mynegodd 34 o ymatebwyr ffafriaeth ynghylch y dewisiadau hyn, fel y sefydlir yn y siart isod.




Combination of 3 options	Cyfuniad o'r 3 opsiwn
Option 1	Opsiwn 1
Option 1 or 2	Opsiwn 1 neu 2
Option 2	Opsiwn 2
Option 2 or 3	Opsiwn 2 neu 3
Option 3	Opsiwn 3

- 4.35 Dengys y canlyniadau gefnogaeth gyffredinol ar gyfer cyflwyno isafswm sylfaen tystiolaeth. Fodd bynnag, roedd sylwadau gan y rhai a gefnogai'r dewis hwn yn cydnabod yr her o wneud hyn. Roedd rhai wedi gwneud sylw mai tystiolaeth o ymyriad, yn hytrach na galwedigaeth, y gellir ei darparu.
- 4.36 Yn gyffredinol roedd y cyrff cyhoeddus a ymatebodd i'n hymgyngoriad yn ffafrio Opsiwn 3. Fodd bynnag, amlygodd nifer nad yw NICE a chanllawiau cyfatebol yn cwmpasu pob agwedd o ofal. Felly byddai'n bwysig ystyried sut byddai cofrestrau ar gyfer rolau yn gweithio mewn lleoliadau amrywiol, yn cynnwys addysg a gofal cymdeithasol, yn gallu arddangos unrhyw ofynion newydd.

'Dylai'r PSA osgoi creu neu gynnal cofrestrau sy'n ymddangos i fod yn ardystio triniaethau niweidiol neu driniaethau a brofir nad ydynt yn gweithio. Dylai fod yn ofynnol i gofrestryddion ymarfer yn unol ag egwyddorion ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ar bob adeg, sy'n gofyn am integreiddio crefftus tystiolaeth ymchwil, dewis cleifion ac arbenigedd y clinigwr.' (Health Education England)

Cyllid

- 4.37 Gofynnwyd i gofrestryddion os oeddynt yn credu ei bod yn rhesymol newid y model ariannu i ffi 'fesul cofrestrydd', ac os oedd yna unrhyw fodelau eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried.
- 4.38 Ar y cyfan, cytunodd 37% o'r ymatebwyr bod ein cynigion yn rhesymol. Anghytunodd 26%, gyda'r 37% oedd yn weddill yn ansicr.
- 4.39 Dengys y tabl isod sut ymatebodd y gwahanol rhanddeiliaid i'r cwestiwn hwn.



AR and associated organisations	AR a sefydliadau cysylltiedig
Employers	Cyflogwyr
Other	Arall
Patients/Public/Patient groups	Cleifion/Cyhoedd/Grwpiau cleifion
Practitioners	Ymarferwyr
Public bodies/NHS/Government	Cyrff cyhoeddus/GIG/Llywodraeth
Unknown	Anhysbys
Voluntary registers – non AR	Cofrestrau gwirfoddol – nid AR
Don't know	Ddim yn gwybod
Maybe	Efallai
No	Nac ydw
Yes	Ydw

- 4.40 Ymysg y rhai a ddarparodd sylw i'r cwestiwn hwn, p'un a oedd ymatebwyr yn cytuno neu beidio gyda'n cynigion, roedd fforddiadwyedd ar gyfer cofrestryddion a chofrestrau yn ystyriaeth allweddol. Teimlai nifer y dylid cadw'r ffi mor ised â phosibl, fel nad yw'n atal cofrestryddion neu gofrestrau posibl rhag ymuno. Nododd rhai ei bod yn credu mai cyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig fyddai ariannu diogelu'r cyhoedd.
- 4.41 Roedd y Cofrestrau Achrededig yn gyffredinol wedi eu rhannu rhwng cytuno, anghytuno ac ansicrwydd ynghylch ein cynigion. Nododd rhai bod y ffioedd cyfredol eisoes yn fuddsoddiad arwyddocaol, ac y bydd rhai sefydliadau wedi eu heffeithio gan y pandemig Covid-19. Ymysg y grŵp hwn, roedd pryderon y rhai oedd wedi anghytuno gyda'n cynigion n bennaf oherwydd effaith y cynnydd mewn ffioedd i sefydliadau gyda nifer fwy o gofrestryddion. Mynegodd rhai sefydliadau bryder am amseriad y cynnydd mewn ffioedd ac amlygu'r angen i ymgynghori gyda'u haelodau ar y newid gan eu bod yn ystyried y byddai angen ei basio ymlaen i gofrestryddion trwy godi ffioedd cofrestru.


“Bydd yn rhaid codi'r ffi yma'n ôl yn uniongyrchol ar y cofrestrydd unigol gan yr amrywiol reolyddion, gan nad yw'n debygol y bydd y mwyafrif o sefydliadau mewn safle i gario baich y cynnydd.” Cofrestr Achrededig

- 4.42 Awgrymodd nifer o'r Cofrestrau Achrededig y gallent ddilyn dull 'haenau' amgen, gyda ffioedd wedi eu gosod yn ôl p'un a oedd sefydliad wedi ei gategoreiddio fel un 'bach', 'canolig' neu 'fawr' yn ôl nifer y cofrestryddion. Awgrymwyd hefyd y dylid cael isafswm taliad, a therfyn ar gyfer cofrestrau mwy.
- 4.43 Ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid, roedd y rhesymau a roddwyd gan y rhai a gefnogai ein newidiadau yn cynnwys bod yn fwy fforddiadwy i gofrestrau llai, a fyddai'n galluogi'r rhaglen i ehangu ei gwmpas. Fodd bynnag, credai nifer o'r ymatebwyr y byddai'n bwysig i ni allu arddangos gwerth y rhaglen i gofrestryddion.

“Bydd model fesul cofrestrydd yn caniatáu i nifer mwy o broffesiynau edrych ar ymgeisio am gofrestrriad heb orfod cyfaddawdu trwy ymuno â chymdeithasau eraill.” Cofrestr Achrededig

Ein gweledigaeth i'r dyfodol

- 4.44 Gofynnwyd i ymatebwyr i'n harolwg os byddai ein cynigion ar gyfer gweledigaeth i'r dyfodol yn cyflawni gwell defnydd a chydabyddiaeth o'n rhaglen gan gleifion, y cyhoedd a chyflogwyr.
- 4.45 Ar y cyfan, roedd 23% yn cytuno y byddai ein cynigion i'r dyfodol yn cyflawni hyn. Anghytunodd 39%, gyda'r 38% oedd yn weddill yn ansicr.
- 4.46 Dengys y graff isod sut ymatebodd y gwahanol rhanddeiliaid i'r cwestiwn hwn.



AR and associated organisations	AR a sefydliadau cysylltiedig
Employers	Cyflogwyr
Other	Arall
Patients/Public/Patient groups	Cleifion/Cyhoedd/Grwpiau cleifion
Practitioners	Ymarferwyr
Public bodies/NHS/Government	Cyrff cyhoeddus/GIG/Llywodraeth
Unknown	Anhysbys
Voluntary registers – non AR	Cofrestrau gwirfoddol – nid AR
Don't know	Ddim yn gwybod
Maybe	Efallai
No	Nac ydw
Yes	Ydw

4.47 Roedd y sylwadau gan y rhai nad oeddynt yn sicr am y weledigaeth ar gyfer y dyfodol yn dueddol o gefnogi'r egwyddorion cyffredinol, ond yn codi cwestiynau ynghylch sut i'w cyflawni'n ymarferol. Crybwyllwyd yr amrywiaeth eang o'r mathau o rolau a gofrestrwyd yn aml. O fewn y galwedigaethau eu hunain, cwestiynodd rhai os gellid cyflawni safonau addysg a hyfforddiant cyson, oherwydd amrywiaeth a chymhlethdod y cwricwla a ddefnyddir ar hyn o bryd.

4.48 I nifer o'r rhai oedd yn anghytuno, cyfeiria'r sylwadau at y system reoleiddio ehangach. Amlygodd rhai'r angen am lwybr mwy pendant tuag at reoleiddio statudol. Awgrymodd un ymatebydd y dylem sicrhau cytundeb ar y rhaglen gan bob un o'n pedair gwlad, er mwyn i'r Cofrestrau Achrededig allu gweithredu yn rhan o system reoleiddio gyda sawl haen.

“Rydyn ni'n cefnogi haeniad galwedigaethau yn ôl risg, ond hoffem weld hyn ar draws y cofrestrau statudol ac anstatudol.” (Public Health England)


4.49 Awgrymodd rhai sylwadau fod ystyriaeth o safonau addysg a hyfforddiant yn ffactor mwy allweddol o ran sicrhau hygyrdd ar gyfer cyflogwyr na newidiadau

“Dylai'r newidiadau a gynigiwyd yn yr adolygiad strategol a'r aliniad gyda blaenoriaethau a galwedigaethau allweddol y GIG sicrhau mwy o ddefnydd a chydnabyddiaeth, ar draws y system...rhaid i'r PSA hefyd ystyried effaith adolygiad y Llywodraeth i reoleiddio yn y Deyrnas Unedig, a fydd yn cychwyn yn 2021.” (Health Education England)

i'r seilwaith reoleiddio. Roedd nifer o sylwadau yn amlygu pwysigrwydd gwaith i godi ymwybyddiaeth o rôl achredu fel rhywbeth allweddol i effeithiolrwydd yn y dyfodol.

Diogelu

- 4.50 Gofynnwyd i ymatebwyr os, er mwyn diogelu'r cyhoedd, y dylai'r Cofrestrau Achrededig gael mynediad i wybodaeth ynghylch collfarnau darfodedig perthnasol.
- 4.51 Ar y cyfan, cytunodd 64% o'r ymatebwyr â'r datganiad hwn. Anghytunodd 18%, gyda'r 18% oedd yn weddill yn ansicr.
- 4.52 Dengys y graff isod sut grwpiau ymatebodd y gwahanol grwpiau rhanddeiliaid i'r cwestiwn hwn.



AR and associated organisations	AR a sefydliadau cysylltiedig
Employers	Cyflogwyr
Other	Arall
Patients/Public/Patient groups	Cleifion/Cyhoedd/Grwpiau cleifion
Practitioners	Ymarferwyr
Public bodies/NHS/Government	Cyrff cyhoeddus/GIG/Llywodraeth
Unknown	Anhysbys
Voluntary registers – non AR	Cofrestrau gwirfoddol – nid AR
Don't know	Ddim yn gwybod
Maybe	Efallai
No	Nac ydw
Yes	Ydw

- 4.53 Roedd cefnogaeth gref ar draws yr holl grwpiau i'r cwestiwn hwn. Credai ymatebwyr a adawodd sylwadau ar gyfer y cwestiwn hwn yn gyffredinol fod hyn yn bwysig i ddiogelu'r cyhoedd. Awgrymodd rhai sylwadau y dylid ei ystyried fel rhan allweddol o'r sicrwydd mae'r rhaglen yn gynnig.

“O ystyried...ydw. Mae yna enghreifftiau amlwg ble nad fyddech chi eisiau unigolion yn gweithio'r cyhoedd neu blant yn seiliedig ar gollfarnau blaenorol.” Cymdeithas Tyllino Chwaraeon

- 4.54 Roedd y sylwadau gan rai nad oeddynt yn siŵr ac oedd yn anghytuno y dylai Cofrestrau Achrededig gael mynediad at wybodaeth ynghylch collfarnau darfodedig perthnasol yn canolbwyntio'n bennaf ar gwestiynau ynghylch a ddylai hyn fod o fewn cylch gorchwyl y sefydliad. Roedd nifer o'r ymatebwyr a roddodd sylw yn poeni am y goblygiadau preifatrwydd a chyfreithiol o gadw'r math yma o wybodaeth ar gofrestrau.

Effeithiau cydraddoldeb

- 4.55 Gofynnwyd i ymatebwyr os oedd yna unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlont allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion gyda nodweddion sydd wedi eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

“Mae nifer o'r grwpiau gyda nodweddion gwarchoddedig sydd o fewn cwmpas Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ymarfer ac yn gofyn am fynediad at fathau o feddyginiaethau traddodiadol a allai gael eu heffeithio gan y penderfyniad i ddileu galwedigaethau penodol o'r gofrestr.” Cymdeithas Ymarferwyr Natur-iachawyr

- 4.56 Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon y gallai ein cynigion waethygu anghydraddoldeb a thensiwn oedd yn rhan gynhenid o gael dwy haen o reoleiddio, gyda rhai yn gorfod cofrestru yn ôl y gyfraith.
- 4.57 Roedd nifer o sylwadau yn benodol i'r proffesiynau seicolegol. Er enghraifft, dywedodd un ymatebwr y gallai ein cynigion o ran mwy o gysondeb safonau addysg a hyfforddiant ei gwneud yn anoddach i gyflawni 'arbrofion radical' a allai liniaru anfanteision a gwneud maes cynghori a seicotherapi yn fwy agored. Gwnaeth rhai sylw y gallai menywod fod yn fwy tebygol o hyfforddi fel cynghorwyr, ac y gallai hyn achosi i'r cynnydd mewn ffioedd gael ei basio i lawr yn anghymesur i fenywod.
- 4.58 Amlygodd rhai sylwadau y gallai defnyddwyr rhai gwasanaethau a gynigir gan Gofrestrau Achrededig fod yn fwy tebygol o fod yn hŷn neu â chyflyrau hirdymor. Gallai newidiadau i sut ydym yn ystyried tystiolaeth o effeithlonrwydd, a allai effeithio ar gymhwyster rhai sefydliadau cyfredol a darpar sefydliadau ar gyfer achrediad, ddileu'r sicrwydd ar gyfer y cleifion hyn.

“Mae rhai grwpiau gwarchoddedig (e.e. yr henoed, cleifion canser) yn ddefnyddwyr mwy mynych ar gyfer proffesiynau gofal iechyd cofrestredig gwirfoddol penodol. Os bydd y PSA yn diddymu gallu'r proffesiynau hyn i gael eu hachredu, efallai na fydd gan grwpiau gwarchoddedig unrhyw ddewis ond i fynd am ymarferwyd nad ydynt wedi eu hachredu na'u diogelu trwy'r broses PSA.” (Homeopathy UK)

“Rhaid ystyried bod cleifion yn aml yn ymgysylltu â gwasanaethau tu allan i'r GIG oherwydd eu bod yn cynnig cefnogaeth nad yw'n gyffredinol wedi ei gynnig yn y GIG. Gan y gallai hyn fod mewn sectorau fel gofal hosbis neu elusennau arbenigol, efallai y bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar ofal plant, cleifion hŷn a rhai gydag anabledd.” (Keech Hospice Care)

- 4.59 Roedd rhai sylwadau yn awgrymu y byddai'n cynigion yn cael effaith bositif ar unigolion gyda nodweddion a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, fel bod yn glir ynghylch arferion a allai fod yn niweidiol ac/neu wahaniaethol, fel therapi trosi a Diddymiad Llwy'r o Fynegiant Sbectrwm Awtistiaeth (CEASE) a allai weithiau fod yn gysylltiedig gan rai sefydliadau sy'n gymwys ar gyfer achrediad ar hyn o bryd.

5. Y camau nesaf

- 5.1 Rydym yn defnyddio'r casgliadau hyn i ddatblygu ein cynigion ymhellach. Mae hyn yn cynnwys defnyddio casgliad Cwestiwn 9 i nodi'r grwpiau penodol y mae angen i ni geisio ymgysylltu â nhw i hybu ein dealltwriaeth o effeithiau posibl ein cynigion.
- 5.2 Ystyriodd ein Bwrdd y dadansoddiad cychwynnol o'r ymgynghoriad ym Mawrth 2021. Bydd yn ystyried ein cynigion diwygiedig ym Mai 2021. Byddwn yn cyhoeddi manylion pellach wedi hyn, gyda'n Hasesiad Effaith ar Gydraddoldeb. Rhagwelwn y bydd ein cynigion yn cael eu rhoi ar waith yng Ngorffennaf 2021.

6. Atodiad A – Digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid

- 6.1 Gwahoddwyd amrywiaeth eang o randdeiliaid i ddigwyddiadau arddull ford gron i rannu ei barnau ar agweddau penodol o'r rhaglen. Gyda'u caniatâd, ychwanegwyd allbynnau o'r grwpiau i'r ymatebion terfynol i'r ymgynghoriad.
- 6.2 Ar 3 Rhagfyr, buom yn cyfarfod gyda chydweithwyr o Lywodraethau'r Deyrnas Unedig, NHSE/I, Health Education England, Cyflogwyr y GIG a Public Health England.
- 6.3 Ar 9 Rhagfyr, buom yn cyfarfod gyda'r holl Gofrestrau Achrededig cyfredol.
- 6.4 Ar 27 Ionawr, buom yn cyfarfod gyda'r sefydliadau canlynol i drafod safbwynt y cleifion:
 - Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
 - Llywodraeth Cymru
 - Llywodraeth yr Alban
 - Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned (Cymru)
 - Cymdeithas y Cleifion
 - Hospice UK
- 6.5 Ar 28 Ionawr, buom yn cyfarfod gyda'r sefydliadau canlynol i drafod safbwynt cyflogwyr:
 - Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
 - Llywodraeth Cymru
 - Llywodraeth yr Alban
 - Health Education England
 - Cyflogwyr y GIG
 - Gweithwyr y GIG
 - Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
 - Rhwydwaith Darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP

Ffôn: **020 7389 8030**

Ffacs: **020 7389 8040**

E-bost: **info@professionalstandards.org.uk**

Gwefan: **www.professionalstandards.org.uk**

© Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

